

BARDD PLANT CYMRU

Annwyl athro/athrawes/drefnydd,

Dyma ffurflen gais am ymweliad gan Casia Wiliam, Bardd Plant Cymru 2017-2019.

Mae galw mawr am ymweliad gan Bardd Plant Cymru, a does dim sicrwydd y byddwn ni'n gallu cynnig dyddiad i chi. Rydym yn asesu pob cais yn unigol, ac yn cysylltu â'r ysgolion/digwyddiadau llwyddiannus.

Gallwch fwynhau adnoddau ar-lein Bardd Plant Cymru drwy ymweld â'r wefan www.barddplant.cymru

Mae ymweliadau ysgol arferol yn para dwy awr, a bydd ysgolion llwyddiannus yn cael cynnig un ai slot bore (9.30am-11.30am) neu slot prynhawn (1pm-3pm). Dim ond un gweithdy gallwn ni ei gynnig i bob ysgol (cyfanswm o 30 o blant), ac i wneud yn fawr o'r gweithdy hwnnw, ni fydd yn bosib rhannu'r gweithdy'n ddau.

Rydym yn gofyn i bob ysgol sy'n derbyn ymweliad i dalu £60, fel cyfraniad tuag at gostau'r bardd. Bydd Llenyddiaeth Cymru yn anfonebu wedi'r gweithdy.

Hoffem dynnu eich sylw at gynllun arall sy'n cael ei redeg gan Llenyddiaeth Cymru, sef [Awduron ar Daith](#). Mae'r cynllun hwn yn cynnig cymorth ariannol gwerth hyd at 50% o ffioedd awduron ar gyfer digwyddiadau llenyddol priodol. Gallwch wneud cais am nawdd ar gyfer ymweliad gan awdur neu fardd o'ch dewis chi drwy wefan Llenyddiaeth Cymru. Gallwch wneud cais am nawdd tuag at ddigwyddiadau ar gyfer plant a phobl ifanc hyd at 30 diwrnod cyn y digwyddiad.

Mae gan Casia Wiliam dystysgrif DBS cyfredol. Os ydych angen gweld prawf o hyn, gofynnwch wrth gydlynnydd y prosiect (manyllion cysylltu ar waelod y ffurflen gais).

Os bydd yn rhaid canslo sesiwn am ryw reswm, fe wnawn ein gorau i ail-drefnu ar ddyddiad sy'n gyfleus i bawb, ond nodwch nid yw hyn bob tro yn bosib.

Edrychwn ymlaen at dderbyn eich cais.

Tîm Bardd Plant Cymru



CYNGOR LLYFRAU CYMRU
WELSH BOOKS COUNCIL



Ffurflen Gais am Ymweliad Bardd Plant Cymru 2017-2019

Enw a swydd y sawl sy'n gwneud y cais:	
Cyfeiriad llawn yr ysgol neu enw a lleoliad y digwyddiad (<u>gan gynnwys côd post ac awdurdod lleol</u>):	
Cyfeiriad e-bost:	
Rhif ffôn:	
Nifer y plant yn y grŵp (dim mwy na 30) a pha flwyddyn ysgol:	
Ydy'r ysgol/digwyddiad wedi derbyn ymweliad gan Bardd Plant Cymru yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf?	
Nodwch unrhyw wybodaeth bellach, er enghraifft os oes unrhyw ddyddiadau penodol gennych mewn golwg (yn fwy perthnasol i ddigwyddiadau neu ysgolion sy'n cynnal digwyddiadau arbennig):	

Mi fydd Llenyddiaeth Cymru yn cadw a phrosesu eich data i weinyddu Cynllun Bardd Plant Cymru. Ystyrir hyn yn ddefnydd dilys gan fod y data yn angenrheidiol ar gyfer pwrpasau gwerthuso - ac ar gyfer adrodd i'r partneriaid (Llywodraeth Cymru, Urdd Gobaith Cymru, Cyngor Llyfrau Cymru ac S4C).

Cedwir a prosesir eich data i greu a chynnal y cytundeb gweithgarwch, os yn berthnasol.

Hoffai Llenyddiaeth Cymru eich hysbysu o'n gweithgarwch a'n gwasanaethau, o dro i dro. A ydych yn fodlon i Llenyddiaeth Cymru gysylltu â chi ar gyfer dibenion marchnata?

Ydw



Nac ydw



* Ni fydd Llenyddiaeth Cymru yn rhannu eich gwybodaeth gyda thrydydd parti ar gyfer dibenion marchnata.

Cysylltwch â Llenyddiaeth Cymru am ragor o wybodaeth am ddefnydd data. Mewn achosion o gamddefnydd data - gallwch gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i gwyno (www.ico.org.uk).

Anfonwch y ffurflen mewn e-bost at barddplant@llynyddiaethcymru.org neu yn y post at **Steffan Phillips, Llenyddiaeth Cymru, Canolfan Glyn Jones, Canolfan Mileniwm Cymru, Caerdydd CF10 5AL.**



CYNGOR LLYFRAU CYMRU
WELSH BOOKS COUNCIL

